Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Gweithgaredd 3: Pwerau'r Senedd

Mae gan y bobl sy'n eich cynrychioli chi yn y Senedd bwerau i lunio rheolau ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd bywyd yng Nghymru. Mae'r meysydd hyn yn cael eu hadnabod fel **materion datganoledig**. Fodd bynnag, mae rhai meysydd sy'n berthnasol i bob rhan o'r DU yn parhau'n gyfrifoldeb Senedd y DU a Llywodraeth y DU. Y rhain yw'r **materion a gedwir yn ôl**.

**Edrychwch ar yr eiconau a rhowch gylch o amgylch y rhai rydych chi'n meddwl y mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud penderfyniadau amdanynt.**


Y Gymraeg


Cyfryngau


Y gofod


Plismona


Iechyd



Diwylliant


Twristiaeth


Ffyrdd a thrafnidiaeth


Addysg


Ynni niwclear


Yr Amgylchedd


Trafnidiaeth yn yr awyr


Amddiffyn


Chwaraeon


Tai


Ffermio

## Gwneud cyfreithiau i lunio Cymru

Mae Aelodau o'r Senedd yn trafod, gwirio a gwneud deddfau sy'n llywio bywyd yng Nghymru. Mae Aelodau o'r Senedd yn cyfarfod yn y Cyfarfod Llawn neu Bwyllgorau llai i helpu i wella cyfraith ddrafft dros amser.

Mewn parau neu grwpiau, trafodwch:

- Pam mae angen cyfreithiau arnom mewn cymdeithas?
- Pa faterion sydd bwysicaf i chi fel pobl ifanc?
- Beth allai wella eich bywydau fel pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru?

**Nodiadau:**

## Oeddech chi'n gwybod?

Bydd Aelodau o'r Senedd yn ymgynghori â thystion arbenigol, ac yn aml byddant yn gofyn barn gwahanol sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd i'w helpu i ffurfio deddf newydd ar gyfer Cymru.

Ymhlith yr enghreifftiau y mae:

- **Deddf Teithio Llesol (Cymru):** sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr, ac ystyried eu hanghenion wrth baratoi cynlluniau ffyrdd newydd.
- **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru):** sy'n cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau a meinwe, lle bernir bod cydsyniad wedi'i roi, oni bai bod yr ymadawedig wedi gwrthwynebu yn ystod ei oes.
- **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru):** sy'n ei gwneud yn drosedd cyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro, oni bai bod eithriad yn bodoli e.e. trowyr diod plastig, gwellt yfed plastig ac ati.